**Dydd Mercher, Medi 4ydd, 2024**

**Cofnodion Cyfarfod Cyfethol Arbennig Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein drwy gyfrwng Microsoft Teams, ar ddydd Mercher, Medi 4ydd, 2024 am 6.30 yh.**

**Presennol**

**Cynghorwyr:** P. H. Roberts, R. A. Davies, J.W. Tandy, D. Hopkins, A. W. Jones, Mrs C. R. Thomas, A. Evans, H. Davies, C. Davies

**Arlein:** D. Thomas, Mrs K. D. L Davies, E. Davies, A. Thomas

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr R. Barnes, E. Nicholas, G. Davies, S. Roberts

**496.**

**Datganiadau o Fuddiant.**

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddiwrth y Cynghorwyr R. Barnes, E. Nicholas, G. Davies, S. Roberts

**497.**

**I ystyried un cais am Gyfetholiad yn Ward Heol Ddu.**

Eglurodd y Clerc bod y broses diwydrwydd dyladwy llawn wedi'i dilyn ac, yn dilyn yr angen i lenwi sedd wag am Gynghorydd Cymuned yn Ward Heol Ddu, roedd y sedd wag wedi'i hysbysebu, ond nid oedd unrhyw berson wedi cyflwyno diddordeb, gan gynnwys llofnod deg etholwr a fyddai'n arwain at etholiad, erbyn y dyddiad cau. Yn dilyn hyn, ac yn unol â'r penderfyniad a wnaethpwyd yn y Cyfarfod Cyffredin ar Orffennaf 31ain, a gan ddilyn cyngor Swyddfa Etholiadol Cyngor Sir Caerfyrddin, gosodwyd hysbyseb yn gofyn am gyfetholiad i gynnig cyfle i unigolion priodol wneud cais i gael eu cyfethol i lenwi'r sedd drwy anfon CV ysgrifenedig at y Clerc.

Eglurodd y Clerc taw dim ond un CV oedd wedi'i dderbyn, a hwnnw oddiwrth Lynne Wilkins; aeth ymlaen i ddarllen y CV ysgrifenedig yn llawn i'r cyfarfod.

Eglurodd y Clerc bod gofyn bod y cynghorwyr yn trafod y cais, ac yna'n cynnal pleidlais drwy naill ai gynnal pleidlais gudd neu drwy godi dwylo.

Roedd gan y Cynghorydd D. Thomas ei amheuon ynghylch y cais o ganlyniad i'r nifer o weithiau roedd yr ymgeisydd heb ei hethol yn Etholiadau'r Cyngor Cymuned, ac roedd o'r farn ei fod yn annemocratig. Ar y llaw arall roedd y Cynghorwyr A. Jones ac E. Davies o'r farn bod y broses wedi'i dilyn, a bod angen naill ai derbyn, neu wrthod y cais, a hynny ar sail teilyngdod yn unig.

Roedd y Cynghorydd C. R. Thomas yn teimlo bod y ffaith bod yr ymgeisydd yn dangos diddordeb cyson yn y Cyngor Cymuned yn arwydd o'i hymroddiad i weithio ar ran y gymuned.

Dywedodd y Clerc bod angen cynigydd ac eilydd ynghylch p'un ai y dylid cynnal pleidlais – cynigiwyd hynny gan y Cynghorydd A. Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. H. Roberts. Yna gofynnodd y Clerc os oedd y cyfarfod am bleidleisio drwy godi llaw neu fwrw pleidlais gudd. Penderfynwyd yn unfrydol i bleidlesio drwy godi dwylo. Cofnodwyd y bleidlais, gydag unarddeg o blaid, dau yn erbyn a phedwar wedi atal pleidlais.

**Argymhellwyd** bod Lynne Wilkins yn cael ei chyfethol a bydd hyn yn cael ei ddilysu gan Gyfarfod Cyffredin nesaf y cyngor.

**498.**

## Eglurhad ynghylch y sedd wag yn Ward Penygroes.

Roedd y Clerc wedi cadarnhau, ar y dyddiad cau ar gyfer cynnal etholiad yn Ward Penygroes, nad oedd unrhwy geisiadau gyda deg llofnod cefnogol wedi'u derbyn gan Swyddfa Etholiadol y Cyngor Sir, a'i fod wedi derbyn cyngor ganddynt i fynd ati i hysbysebu hysbysiad cyfethol; roedd hysbyseb wedi'i gosod ar yr hysbysfyrddau ac arlein.

Roedd hefyd wedi egluro y byddai'r un broses yn cael ei dilyn ag y dilynwyd yn achos Ward Heol Ddu, a byddai hysbyseb cyfethol yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf yn gofyn am geisiadau CVau i'w hystyried, er mwyn llenwi'r sedd wag.

**499.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 6.45 yh.

______________________ Cadeirydd